



GRŴP DYDDIO HEN DAI CYMREIG

www.datingoldwelshhouses.co.uk

DATING OLD WELSH HOUSES GROUP

CYLCHLYTHYR 8 - Mawrth 2014

Rhif Elusan Gofrestredig 1131782 Registered Charity No.

NEWSLETTER 8 - March 2014

CYLCHLYTHYR 8 - MAWRTH 2014

Am wybodaeth cysylltwch â Margaret Dunn, Ysgrifenyddes
brynbedd1@gmail.com. 01766 890550.

LLAWER O DDIOLCH i Gangen Ynys Môn/Sir Gaernarfon
am eu cyfraniad i'r rhifyn hwn.

LLAWER O DDIOLCH i Annes Glynn a fu'n gyfieithydd i ni
ers cychwyn y prosiect yn 2008. Yn ei dilyn hi croesawn
M.Eluned Rowlands.

PROSIECT YMCHWIL TARGED 2014

Nid ydym wedi clywed am ganlyniadau pob un o'n ceisiadau am
grant hyd yma, felly nid ydym yn gwybod faint o adeiladau gaiff
eu cynnwys eleni. Mae'n bosibl y caiff rhai o'r tai allweddol eu
dyddio gan ddefnyddio dyddio radio carbon pan nad yw
dendrocronoleg yn gallu rhoi canlyniad. Diolch i bawb sydd
wedi'n helpu i ddod o hyd i fwy o dai cynnar ar draws y
Gogledd. Mae Dr Miles a Dr Bridge, Labordy Dendrocronoleg
Rhydychen, yn barod wedi bod yn asesu ac yn samplu, gan
fwriadu dychwelyd yn gynnar yn yr haf.



Berain: Dr Bridge a chriw teledu / with TV crew

TAITH ASTUDIO 2014 - 12-14 MAI

Byddwn yn ymweld â thair preifat yn y Gogledd Ddwyrain, gan
archwilio Rhuthun a Dinbych tra'n aros ger yr Wyddgrug. Fe
ddaw manylion llawn pellach cyn bo hir.

CYFARFODYDD Y GRŴP - HAF 2014

COFIWCH ARCHEBU'N GYNNAR gyda Wally ar gyfer y
digwyddiadau Grŵp (wallybarr@yahoo.co.uk / 01745 888622) a
chyda Chynrychiolwyr y canghennau i ymweld â digwyddiadau
canghennau eraill. Rhoddir manylion llawn pan fyddwch wedi
archebu. Mae'r ymweliadau i gyd drwy garedigrwydd y
perchnogion. Cost y digwyddiadau grŵp yw £4 yr un, i'w dalu ar
y diwrnod.

Mercher **Ebrill** 2: Ymweld yn y pnawn ag 11 Stryd y Castell,
Conwy. Tŷ neuadd trefol o ganol y 15G. Uchafswm o 12person.

Mercher **Mai** 28: Ymweld yn y pnawn â Gloddaeth, Llandudno.
Tŷ neuadd bonedd 16 G.

Gwener **Mehefin** 20: 2.00 yp **CBC**; 3.00 yp. darlith
gyhoeddus "Peasant Houses in Medieval Wales" gan Richard
Suggett, RCAHMW Lleoliad: Canolfan Gymunedol Craig y
Don, Llandudno.

Mercher 2 **Gorff**: Ymweliad yn y pnawn i Blas y Dduallt,
Dyffryn Ffestiniog. Tŷ system unedau 16G a'r 17G.

NEWSLETTER No 8 - March 2014

For further information contact Margaret Dunn, Secretary
brynbedd1@gmail.com. 01766 890550.

MANY THANKS to the Anglesey/Caernarfonshire Branch
for their contribution to this edition.

MANY THANKS to Annes Glynn who has translated for us
since the project started in 2008. We welcome M. Eluned
Rowlands as our translator.

2014 TARGETED RESEARCH PROJECT

We have not yet heard the results of all our grant applications,
and so do not yet know how many buildings will be included
this year. Some key houses may be dated using radiocarbon
dating where dendrochronology fails to give a result. Thank
you to all those who have helped us find more early houses
across North Wales. Dr Miles & Dr Bridge, Oxford
Dendrochronology Laboratory, have already been assessing
and sampling and plan to return in the early summer.



Berain

2014 STUDY TOUR 12-14 MAY

We will be visiting private houses in NE Wales, investigating
Ruthin & Denbigh, and staying near Mold. Full details will be
circulated shortly.

GROUP SUMMER MEETINGS 2014

REMEMBER to BOOK EARLY with Wally for Group
events (wallybarr@yahoo.co.uk / 01745 888622) & with
branch Reps to visit other branch events. Full details will be
given when you have booked. All visits are by the kind
agreement of the owners. The Group events cost £4 paid on
the day.

Wed. **April** 2: Afternoon visit to 11, Castle Street, Conwy.
Mid 15thC urban hall house. Max 12

Wed. **May** 28: Afternoon visit to Gloddaeth, Llandudno.
16thC gentry hall house.

Fri. **June** 20: 2.00 p.m. **AGM**; 3.00 p.m. public lecture
"Peasant Houses in Medieval Wales" by Richard Suggett,
RCAHMW. Venue: Craig y Don Community Centre,
Llandudno.

Wed. **July** 2: Afternoon visit to Plas y Dduallt, Vale of
Ffestiniog. 16thC & 17thC unit system house.

Cangen Ynys Môn/Sir Gaernarfon

Cynrychiolydd: Peter Masters 01758 750322

datinggoldwelshhouses@gmail.com

Llun. **Ebrill** 28: Ymweliad yn y pwn i Dŷ Mawr, Nanmor. Tŷ neuadd 16G gyda lle tân wedi'i fewnosod.

Mercher **Mai** 7: Penarth Fawr, Chwilog. 15G/16G Tŷ neuadd 15G/16G gyda chyplau *sperre*.

Gwener **Mehffin** 6: Ymweliad TRWY'R DYDD i Ganolfan Felin Uchaf, Aberdaron gyda thŷ neuadd to gwellt, newydd ei adeiladu; ac ymweliad â Heulwen, Llangian, tŷ Eryri 16G.

Iau **Gorff** 3: Ymweliad yn y pwn i Blas Penmynydd, Ynys Môn. Tŷ bonedd 16G disgynyddion y Tuduriaid.

Cangen Conwy

Cynrychiolydd: tonyscharer@gmail.com / 01745 813027

Llun **Ebrill** 14: 9.30 yb. Archifdy Llandudno, gyda siaradwr; diweddariadau'r gangen a blaengynllunio.

Iau **Mai** 1. Ymweliad yn y pwn â Hen Neuadd y Penrhyn, ger Llandudno. Tŷ bonedd 16G.

Mercher **Mehffin** 18: Ymweliad yn y pwn â ffermdy Cwm Howard, Llandudno. Tŷ Eryri 16G.

Mercher **Gorff** 16: Ymweliad yn y pwn â Chastell Gwydyr Llanrwst. Cartref 16G Wyniaid Gwydyr



Caerfallen

Anglesey/Caernarfonshire Branch

Rep: Peter Masters 01758 750322

datinggoldwelshhouses@gmail.com

Mon. **April** 28: Afternoon visit to Ty Mawr, Nantmor. C16th Hall house with inserted fireplace.

Wed. **May** 7: Penarth Fawr, Chwilog. 15thC/16thC Hall house with *sperre* trusses.

Fri. **June** 6: ALL DAY visit to Felin Uchaf Centre, Aberdaron with newly-built thatched hall houses; & visit to Haulwen, Llangian, 16thC Snowdonia house.

Thurs **July** 3: Afternoon visit to Plas Penmynydd, Anglesey. 16thC gentry home of the descendants of the Tudors.

Conwy Branch

Rep: tonyscharer@gmail.com / 01745 813027

Mon. **April** 14: 9.30 a.m. Llandudno Archives, with speaker; branch updates & forward planning.

Thurs, **May** 1. Afternoon visit to Penrhyn Old Hall, near Llandudno. 16thC gentry house.

Wed, **June** 18: Afternoon visit to Cwm Howard farmhouse, Llandudno. 16thC Snowdonia house.

Wed **July** 16: Afternoon visit to Gwydir Castle, Llanrwst. 16thC home of the Wynns of Gwydir.



Rhydywernen

Cangen Sir Ddinbych a'r Gogledd Ddwyrain

Cynrychiolydd: Janice: jadale22@hotmail.co.uk; 01490 446427

Mercher **Ebrill** 2: 7.00 ym Mryn Berllan, Cynwyd; Tŷ 16G. Sgwrs gan yr archifydd Merfyn Tomos.

Mercher **Mai** 21: Ymweliad yn y pwn â Gwernbraichdwr, Maerdy. Tŷ bonedd 17G.

Sadwrn **Mehffin** 21: Ymweliad yn y pwn a Choedrwg Isaf, Glyndyfrdwy. Ffermdy 16G/17G.

Gwener **Gorff** 4: 2.00 ym â Caerfallen, Ruthun. 17G.

Cangen Meirionnydd

Cynrychiolydd: john@thetownsend.org.uk 01341430262

Mercher **Ebrill** 9: Ymweliad yn y pwn â Cefn caer, Pen-nal. Tŷ 16G mewn Caer Rufeinig.

Gwener **Mai** 2: 2yp-7.30yh. Arddangosfa Gyhoeddus o waith y Gangen, Pengwern Arms, Llan Ffestiniog

Mercher **Mehffin** 11: Ymweliad yn y pwn i Gaer Hir, Y Bont-ddu. Ffermdy 16 -17G

Ymweliad **Gorffennaf** eto i'w gadarnhau.

Ydych chi wedi YMWELD â'n GWEFAN yn ddiweddar?

www.datinggoldwelshhouses.co.uk

Denbighshire & N E Wales Branch

Rep: Janice: jadale22@hotmail.co.uk; 01490 446427

Wed. **April** 2: 7.00 p.m. at Bryn Berllan, Cynwyd; 16thC house. Talk by Merfyn Tomos, archivist.

Wed **May** 21: Afternoon visit to Gwernbraichdwr, Maerdy. 17thC gentry house.

Sat. **June** 21: Afternoon visit to Coedrwg Isaf, Glyndyfrdwy. 16thC/17thC farmhouse.

Fri **July** 4: 2.00 p.m. visit to Caerfallen, Ruthin. 17th C

Merioneth Branch

Rep: john@thetownsend.org.uk 01341 430262

Wed **April** 9: Afternoon visit to Cefn caer, Pennal 16th C house within Roman Fort.

Fri **May** 2: 2-7.30 p.m. Public Display of Branch work, Pengwern Arms, Llan Ffestiniog

Wed **June** 11: Afternoon visit to Caer Hir, Bont-ddu, 16th -17thC farmhouse

July visit still to be confirmed.

Have you recently VISITED our WEBSITE?

www.datinggoldwelshhouses.co.uk

Ymchwilio yn Llŷn

Tŷ sy'n awgrymu bod ganddo hanes hir yw **Creigir Isaf yn Llanengan**. Mae ganddo drawst sengl sy'n dyddio i 1499-1531, a phared post-a-phanel – ond nid yw'n ymddangos mewn dogfen am y tro cyntaf tan 1728. Cryn her oedd olrhain hanes y tŷ trwy gofnodion plwyf a'r cyfrifiad, gan ei bod yn ymddengys fod pob dyn oedd yn gysylltiedig ag o (a sawl nad oedd yn gysylltiedig) yn cael ei alw'n naill ai'n William Jones neu'n Salmon Jones. Yr hyn a ddeiliiodd oedd stori am fferm deulu oddeutu deugain acer; weithiau byddai'r plant hŷn yn gadael i fyw gyda pherthnasau ac i weithio iddynt, a weithiau byddai tir ychwanegol yn cael ei rentu: roedd enwau'r caeau yn arolwg degwm 1842 yn lled-awgrymu hyn.



Creigir Isaf

Roedd arysgrifiadau ar y beddau o gymorth hefyd, a nid dim ond yr arysgrifiadau – roedd dau barti o'r un gweithredoedd wedi eu claddu yn union wrth ochr ei gilydd, gan awgrymu fod cysylltiad teuluol i'r weithred – gall fod y William Jones, o Benlan Fawr, Pwllheli (hefyd a astudiwyd gan y Grŵp) fod yn fab i Greigir Isaf. Yn 1894 prynwyd y tŷ gan gapten môr o Aberdaron, mae'n debyg fel buddsoddiad, ac wrth i Abersoch dyfu yn yr ugeinfed ganrif fe basiodd drwy nifer o ddwylo a chafodd ei ddefnyddio ar gyfer y mathau o wyliau a ddaeth yn ffasiynol. Roedd y perchennog o'r 1930au yn perthyn i'r teulu a wnaeth lawer i ddatblygu'r gyrchfan gwyliau, gan adeiladu neuadd y pentref, y clwb golff a Chraig y Môr. Mae llythyrau ymysg y gweithredoedd yn datgelu llawer am y datblygiad hwn. Ceir nifer o dai yn Llanengan gyda 'Creigir' yn eu henwau: mae carreg fedd fawreddog o 1659 yn yr eglwys, ynghyd â gweithredoedd cynnar, yn awgrymu bod daliad mawr wedi cael ei rannu oddeutu 1700, a gall gwaith pellach ddateglu sut y digwyddodd hynny.

Y tŷ wedi'i ymchwilio gan Jean Pearson, Yi-Shan Lu a Tom David

Researching in Llŷn

Creigir Isaf in Llanengan is a house that hints at a long history – it has a single beam that dates to 1499-1531, and a post-and-panel partition – but the earliest document in which it appears is of 1728. We found it quite a challenge to trace its history through the parish registers and censuses, as every man who had anything to do with it (and many who didn't) seemed to be called either William Jones or Salmon Jones. What emerged was a story of a family farm of about forty acres; sometimes the older children left to live with relatives and worked for them, and sometimes extra land was rented: the field-names from the 1842 tithe survey gave clues to this.



Creigir Isaf

Grave-inscriptions helped too, and not only the inscriptions: two of the parties to one deed were buried immediately next to each other, which suggested a family dimension to the transaction – the William Jones who had the Penlan Fawr in Pwllheli (also studied by the Group) may have been a son of Creigir Isaf.

In 1894 the house was bought by an Aberdaron sea-captain, presumably as an investment, and as Abersoch grew in the twentieth century, it passed through various hands and was used for the changing kinds of holidays that became fashionable. The owner from the 1930s was related to the family who did much for the development of the resort, building the village hall, the golf-club and Craig y Môr. Letters among the deeds throw considerable light on aspects of this development. There are several houses in Llanengan with 'Creigir' in their names: a grand 1659 tombstone in the church, along with the early deeds, suggests that a large holding was divided around 1700, and further work may reveal how that happened.

House researched by Jean Pearson, Yi-Shan Lu and Tom David

Problemau wrth ymchwilio hanesion tai heb fod yn eiddo i deulu'r Bwcleaid yn nhref gaerog hynafol Biwmares.

Mae patrwm grid canoloesol y strydoedd fwy neu lai yn gyfan er bod enwau'r strydoedd wedi esblygu, gan greu peth anhawster o ran adnabod rhai o'r eiddo. Er enghraifft, roedd pen gorllewinol Stryd y Castell yn cael ei adnabod fel 'Watergate Street' tan ganol y 19 ganrif a chyfeiriwyd ato cyn hynny fel y Stryd Fawr. Anaml iawn y byddai tai y dref yn cael eu henwi, gan olygu bod olrhain tystiolaeth ddogfennol yn anodd; ychydig iawn o dai oedd modd eu hadnabod cyn y 19 ganrif yn enwedig os nad y boneddigion lleol oedd y perchnogion. Mae mwyafrif y tai a'r siopau oedd yn eiddo i deulu'r Bwcleaid wedi cael eu dogfennu'n dda. Mae eu mapiau tenantiaeth yn y 19eg ganrif yn cynnwys y perchnogion a'r tenantiaid ar gyfer holl eiddo Biwmares. Cawsont afael ar dir ac eiddo o ddiwedd y 15ed ganrif nes erbyn diwedd y 16eg ganrif, y teulu hwn oedd prif dirfeddianwyr y dref.



60 Stryd y Castell, Biwmares

Mae digon o dystiolaeth mewn dogfennau am yr 19g, ond cyn hynny mae'n anodd olrhain eiddo nad oedd yn eiddo i deulu'r Bwcleaid. Yn wahanol i eiddo gwledig doedd dim mapiau degwm a roedd y rhan fwyaf o'r tenantiaethau yn rhai tymor byr. Gan fod cymaint o enwau teuluoedd Cymreig lleol yn cael eu defnyddio megis Jones, Roberts, Williams a Griffiths roedd hi'n anoddach fyth i adnabod tenantiaethau a pherchenogaeth cyn 1800. Mae'n wir fod dogfennau o'r 17eg ganrif, treth aelwyd, treth ar ffenestri, ac adroddiadau Wardeniaid Eglwysi yn taflu goleuni, gan ddatgelu'r nifer o weddwon a rhai di-briod a oedd yn berchnogion eiddo. Mae Cofrestrï Plwyf yn gymorth pellach i ddangos pwy oedd yr unigolion hyn, eu galwedigaethau, eu priodasau gan nodi os oeddynt yn wŷr neu wragedd gweddwon. Roedd rhyngbriodi ac ailbriodi ar farwolaeth cymer yn gyffredin. Mae hyn o gymorth, ond nid yw'n datgan cyfeiriadau penodol yr unigolyn, a dim ond drwy brofi a methu, a mynd i gyfeiriadau anghywir y mae modd datrys y sefyllfa.

Tai wedi'u hymchwilio gan June Matthews, Biwmares

Problems researching 'non-Bulkeley' house histories in the ancient castle town of Beaumaris.

The medieval grid pattern of streets is mainly intact though street names have evolved, posing some difficulty in identifying properties. For example, the west end of Castle Street was known as Watergate Street until the mid 19th century and was previously alluded to as High Street. Town houses were rarely given names or numbers making tracing documentary evidence difficult; very few were identifiable before the 19th century especially if the ownership was independent of the local gentry. The majority of houses and shops in the ownership of the Bulkeley family are well documented. Their tenancy maps of the 19th century do include the owners and tenants for the whole of Beaumaris. They acquired land and property from the late 15th century until by the end of the sixteenth century they had become the main landowners.



Tudor Rose, Beaumaris

The 19th century is well documented, but before that the 'non-Bulkeley' properties are difficult to trace. Unlike rural properties there were no tithe maps and most of the tenancies were short term. The predominance of local Welsh family names such as Jones, Roberts, Williams and Griffiths made it even more difficult to identify tenancies and ownership before 1800. 17th century documents, hearth tax, window tax, and Church Wardens reports do give an insight, revealing the number of widows and spinsters who owned property. Parish Registers give further relevance to identifying individuals, their occupations, and marriages indicating whether the spouse is a widow or widower. Intermarriage and re-marriage on the death of a spouse is prevalent. This is helpful, though does not identify the specific address of the individual, and it is only by trial and error and being led up blind alleys is the solution resolved.

Houses researched by June Matthews, Beaumaris